# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG, 15.09.14

**Yn bresennol:** Y Cynghorydd Eryl Jones-Williams (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Huw Edwards (Is-gadeirydd)

Y Cynghorwyr Eddie Dogan, Annwen Hughes, Louise Hughes, Dilwyn Lloyd, W.Tudor Owen, Angela Russell, Ann Williams, Elfed W Williams

**Hefyd yn Bresennol:** Siôn Huws (Uwch Gyfreithiwr), Sheryl Le Bon Jones (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Cefnogi Aelodau a Chraffu)

**1. CROESO AC YMDDIHEURIADAU**

Croesawyd pawb i'r Pwyllgor gan y Cadeirydd, y Cynghorydd Eryl Lloyd Williams, Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Llywarch Bowen Jones a Peter Read

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd ar 23 Mehefin 2014, fel rhai cywir.

O ran presenoldeb Aelodau, nodwyd bod sedd wag (Plaid Cymru) yn bodoli ar y pwyllgor ers rai misoedd a bod presenoldeb ambell i Aelod arall o'r Pwyllgor yn wan.

Nodwyd mai cyfrifoldeb y Grwpiau Gwleidyddol yw aelodaeth pwyllgorau ac felly awgrymwyd i'r Aelodau drafod y mater ymysg eu Grwpiau Gwleidyddol priodol. Awgrymwyd hefyd i'r Cadeirydd drafod y mater gyda Chadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd a'r Swyddog Cefnogi Aelodau i gyfeirio'r mater ymlaen at Bennaeth Gwasanaethau Democratiaeth.

**5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd, er gwybodaeth, gofnodion cyfarfodydd o'r Is-bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar 9.7.2014, 14.7.2014 a 16.7.2014.

**6. ADRODDIAD FFIOEDD A THALIADAU ARFAETHEDIG 2014/15 – ADRAN GWARCHOD Y CYHOEDD**

Ni chyflwynwyd yr adroddiad gan nad oedd yn berthnasol i Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005.

**7. CADEIRYDDIAETH Y PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG A'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Cyflwynwyd adroddiad gan yr Uwch Gyfreithiwr yn manylu ar anfodlonrwydd y Pwyllgor yn y cyfarfod diwethaf i allu ethol un aelod yn Gadeirydd ar y Pwyllgor Trwyddedu Canolog a'r Pwyllgor Trwyddedu Cyffredinol.

Wrth osod y cefndir, nodwyd bod y Pwyllgor Trwyddedu Canolog wedi ei sefydlu i ymdrin â materion o dan Ddeddf Trwyddedu 2003 a Deddf Gamblo 2005. Mae yn ofyniad statudol i sefydlu'r pwyllgor hwn ac ni ellir ystyried unrhyw fater arall.

O ganlyniad sefydlwyd y Pwyllgor Cyffredinol i benderfynu ar faterion eraill. Yn gyfansoddiadol maent yn ddau bwyllgor gwahanol sydd yn cynnal cyfarfodydd arwahan. Serch hynny, mae'r Cyngor wedi penderfynu y bydd y ddau bwyllgor yn cynnwys yr un 15 aelod fel y mae wedi ei nodi yn y Cyfansoddiad.

Fel rheol gyffredinol, nodir yn y Cyfansoddiad na all yr un aelod fod yn Gadeirydd ar fwy nag un Pwyllgor. O dan y Cyfansoddiad presennol, rhaid penodi dau aelod gwahanol i gadeirio'r pwyllgorau.

Mynegwyd Aelodau'r Pwyllgor, fel ag y gwnaed yn y cyfarfod diwethaf (23.6.2014), y dylid caniatáu'r un aelod i gadeirio'r ddau bwyllgor. Golygai hyn y byddai angen diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i'r Pwyllgorau hyn yn unig, gan gyflwyno argymhelliad i gyfarfod nesaf y Cyngor am gymeradwyaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I GYFARFOD NESAF O'R CYNGOR LLAWN, (9.10.14) GYMERADWYO'R CAIS I DDIWYGIO CYFANSODDIAD Y CYNGOR (Rhan 4/ Rheolau Gweithdrefn/10 Para 1,2 a 5) AR GYFER Y DDAU BWYLLGOR TRWYDDEDU YN UNIG**

Dechreuodd y cyfarfod am 10:00a.m a daeth i ben am 10:15am